

Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20

Tachwedd 2018

Bu'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu (y Pwyllgor) yn craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20. Mae'r adroddiad byr hwn yn crynhoi gwaith y Pwyllgor.

1. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2019-20 ar 2 Hydref 2018. Gellir gweld y cynigion a'r naratif yma:

<https://beta.llyw.cymru/cyllideb-ddrafft-2019-2020>

2. Gwahoddodd y Pwyllgor yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon Llywodraeth Cymru, i ddod i gyfarfod ar 8 Tachwedd 2018 i drafod y gyllideb. Gwahoddwyd Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, i gyfarfod y Pwyllgor ar 14 Tachwedd. Ar y ddau achlysur, gofynnodd aelodau'r Pwyllgor gwestiynau am ddyraniad cyllid a chanlyniadau disgwylidig yn sgil penderfyniadau'r gyllideb.

3. Cyn y cyfarfodydd, gofynnodd y Pwyllgor am amrywiaeth o wybodaeth am y rhannau hynny o'r gyllideb sy'n ariannu gweithgareddau o dan gylch gwaith y Pwyllgor. Darparodd Llywodraeth Cymru y papurau canlynol:

[Memorandwm ar Gynigion y Gyllideb Ddrafft Diwylliant ar gyfer 2019-20](#)

[Papur tystiolaeth i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu er mwyn craffu ar Gyllideb Ddrafft 2019-20](#)

4. Yn ystod y broses craffu, codwyd nifer o faterion a oedd yn gofyn am ragor o wybodaeth neu eglurhad. Sonnir am y rhain yn yr adroddiad.



5. Bu'r Pwyllgor yn craffu ar dri maes gwario o fewn portffolio'r Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a'r Celfyddydau, sef diwylliant a'r celfyddydau, cymorth i'r amgylchedd hanesyddol a'r cyfryngau a chyhoeddi.

Cymorth i'r Celfyddydau

Cefndir

6. Mae diwylliant a'r celfyddydau yn cynnwys ariannu ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru, yr Amgueddfa Genedlaethol, y Llyfrgell Genedlaethol ac adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

7. O gymharu â chyllideb atodol 2018-2019, mae cyllid refeniw ar gyfer Cymorth i'r Celfyddydau wedi gostwng o £66.9 miliwn i £65.9 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2019-20 (gostyngiad o 2% mewn termau arian parod). Dros yr un cyfnod, mae cyllid cyfalaf wedi cynyddu o £5.4 miliwn i £10.5 miliwn (cynydd o 93% mewn termau arian parod).

8. Mae'r gyllideb gyfalaf "yn cynnwys £5 miliwn o'r Cytundeb Cyllideb gyda Phlaid Cymru¹ i ddatblygu'r astudiaethau dichonoldeb ar gyfer galeri luniau gyfoes ac amgueddfa bêl-droed yng Ngogledd Cymru".

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

9. Mae'r Ddeddf wedi'i chynllunio i wneud i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf roi mwy o ystyriaeth i'r tymor hir; i gydweithio'n well â phobl a chymunedau a chyda'i gilydd; i geisio atal problemau a chydweithredu'n fwy.² Holodd y Pwyllgor ynghylch y ffordd y mae nodau'r **Ddeddf** wedi dylanwadu ar ddyraniadau yn y gyllideb. Dywedodd y Gweinidog Diwylliant fod y cyrff cyhoeddus a noddir gan ei Adran wedi cael llythyrau cylch gwaith sy'n cynnwys y cyfarwyddyd hwn:

"Yn sail i bopeth yr ydym yn ei wneud, mae ein nodau llesiant a'n hamcanion fel a nodwyd yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)*. Dylai'r pum ffordd o weithio fod yn integredig o fewn eich cynllun strategol a dylech ddangos sut yr ydych yn cyflawni yr amcanion llesiant yr ydych wedi eu pennu mewn ymateb i ofynion y Ddeddf ar gyrrff cyhoeddus."

10. Dywedodd hefyd:

¹ <https://gov.wales/docs/caecd/publications/171001-budget-agreement-cy.pdf>

² <https://llyw.cymru/docs/dsjlg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-cy.pdf>

“Rydym ni’n disgwyl i bawb sydd yn cael unrhyw gyllid oddi wrthym ni i fod wedi ystyried y materion yma yn gyson, ac felly, pan ydym ni’n dyrannu cyllideb, mae’r cyfan o fewn y fframwaith.”

11. Rhoddodd y Gweinidog enghraifft o lyfrgelloedd yn cael eu defnyddio gan ddefnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol a chyrff iechyd fel lle niwtral i fynd i’r afael â materion iechyd meddwl.

Nid oedd y Pwyllgor yn eglur o’r graddau y mae Llywodraeth Cymru yn gwerthuso newidiadau yn y ffyrdd o weithio yn dilyn cynnwys y cyfarwyddyd ar y nodau llesiant yn y llythyrau cylch gwaith perthnasol. Hoffai’r Pwyllgor weld Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth i’r Pwyllgor ar y pwynt hwn.

Cyllid ar gyfer y rhaglen Cyfuno

12. Clywdd y Pwyllgor fod gwerthusiad o’r cynlluniau peilot o dan raglen Cyfuno yn cael ei gyhoeddi, sy’n ceisio mynd i’r afael â thlodi drwy annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth.

Cyllid cyfalaf ar gyfer yr Amgueddfa Genedlaethol

13. Holodd y Pwyllgor ynghylch y tanwariant cyfalaf gan y Llyfrgell Genedlaethol a’r Amgueddfa Genedlaethol mewn blynyddoedd blaenorol. Nodwyd nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio’n benodol at ailbroffilio’r cyllid yn y dogfennau cyllideb drafft, er bod hynny wedi’i drafod. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth am hyn.

14. Cytunodd y Gweinidog hefyd i ddarparu rhagor o wybodaeth am y cynlluniau i werthuso gwerth am arian buddsoddiad gwerth £7 miliwn Llywodraeth Cymru yn yr ailddatblygiad gwerth £30 miliwn yn Amgueddfa Sain Ffagan.

Roedd y Pwyllgor yn pryderu y dylai’r buddsoddiad cyfalaf gan Adran y Gweinidog gael ei rannu ledled Cymru. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar raniad daearyddol cyllid cyfalaf ar gyfer Diwylliant a’r Celfyddydau.

Cyllid ar gyfer yr oriel celf gyfoes a’r amgueddfa bêl-droed yng ngogledd Cymru

15. Gofynnodd y Pwyllgor am y diweddaraf am y dyraniad o £5 miliwn ar gyfer astudiaethau dichonoldeb i oriel gelf ac amgueddfa bêl-droed yng ngogledd Cymru.

16. Ymatebodd y Gweinidog fod yr ymgynghorwyr wedi adrodd ar y ddau brosiect a bod dadl yn y Cyfarfod Llawn wedi'i threfnu yn y Cynulliad Cenedlaethol. Yn dilyn y ddadl hon, disgwylir iddo ymateb gydag opsiynau a ffefrir gan Lywodraeth Cymru yn fuan ar ôl y ddadl a dechrau buddsoddi yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Siaradodd o blaid model buddsoddi ar wasgar. Dywedodd:

“The options set out in all the studies very much assist me... in looking for what I might call what is the appropriate Welsh model for national institutions... not about putting buildings in Aberystwyth, and Cardiff, and Wrexham, and Bangor, and wherever, of necessity. I think there is a very important principle... is that collections should travel and should not be in stacks in public buildings not seen. So, I think that when these issues come for public debate, I hope we'll get a really good response.”

Cymorth ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol

Cefndir

17. Mae cymorth ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yn cynnwys cyllid ar gyfer Cadw, yr Ardd Fotaneg Genedlaethol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. O gymharu â chyllideb atodol 2018-19, mae'r cyllid refeniw yn aros yr un fath yng nghyllideb ddrafft 2019-20 sef £13.1 miliwn. Dros yr un cyfnod, mae cyllid cyfalaf wedi cynyddu o £4.6 miliwn i £6.2 miliwn (cynnydd o 33% mewn termau arian parod).

18. Cyfrifir y cynnydd hwn gan gynnydd o £3.8 miliwn yng nghyllideb cyfalaf Cadw (bwriedir gwneud cynnydd pellach ar gyfer 2020-2021). Yn ei phapur, dywedodd Llywodraeth Cymru fod hyn wedi'i ddyrannu “ar gyfer ei fuddsoddi mewn cofebau er mwyn cynhyrchu mwy o incwm yn y dyfodol”.

19. Yn ystod sesiwn graffu ar y gyllideb yn 2017, clywodd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu rhoi'r gorau i ddarparu grantiau i berchnogion adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig ac, yn hytrach, defnyddio'r arian hwn ar gyfer gwelliannau cyfalaf i rannau o ystâd Cadw sy'n cynhyrchu incwm. Ailedrychodd y Pwyllgor ar y polisi hwn yn ystod sesiwn eleni gyda'r Gweinidog. Pwysleisiodd fod arian ar gael ar gyfer cyd-fuddsoddi a bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i annog gweithio mewn partneriaeth gyda pherchnogion safleoedd hanesyddol. Yna, dywedodd swyddogion fod cynigion ariannu arloesol yn debygol o gael eu blaenoriaethau, a bod y Llywodraeth am symud i ffwrdd o'r model traddodiadol o roi grantiau. Er gwaethaf hynny, ymddengys nad oes newid sylfaenol wedi bod yn y polisi yn y maes hwn.

Hoffai'r Pwyllgor weld mwy o eglurder gan Lywodraeth Cymru ar i ba raddau y bydd grantiau ar gael i berchnogion adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig, a pha gamau sydd wedi'u cymryd i roi gwybod iddynt am y polisi hwn.

Y cyfryngau a chyhoeddi

Cefndir

20. Caiff cymorth ar gyfer y cyfryngau a chyhoeddi ei ariannu drwy Gyngor Llyfrau Cymru. O gymharu â gwaelodlin diwygiedig 2018-19, mae'r cyllid refeniw ar gyfer y maes hwn o'r rhaglen wariant yn aros yr un fath yng nghyllideb ddrafft 2019-20 sef £3.6 miliwn. Mae'r cyllid cyfalaf yn aros yr un fath hefyd, sef £30,000.

21. Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru yn ei phapur fod cyllid cyfalaf Cyngor Llyfrau Cymru wedi'i chadw o ganlyniad i Gytundeb Cyllideb Plaid Cymru.

Cyllid ar gyfer newyddion hyperleol

22. Fel rhan o gytundeb cyllideb Llywodraeth Cymru gyda Phlaid Cymru, dyrannwyd cyllid ar gyfer "grantiau cychwyn i newyddiadurwyr sydd am sefydlu eu busnes eu hunain ym maes newyddion lleol iawn". Dyrannwyd £100,000 bob blwyddyn ar gyfer 2018-19 a 2019-20. Roedd y cyllid hwn yn cael ei ddarparu trwy wasanaeth cefnogi busnes Llywodraeth Cymru, sef Busnes Cymru.

23. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch sut yr ymrwymwyd yr arian hwn. Esboniodd swyddogion fod y cyllid ychwanegol ar gyfer y cyrff ac astudiaethau dichonoldeb wedi dod i adran y Gweinidog o ganlyniad i Gytundeb Cyllideb gyda Phlaid Cymru ond roedd y cyfrifoldeb polisi yn parhau i fod gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth gan ei fod yn gyfrifol am y diwydiannau creadigol.

24. Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad blaenorol ar sut y dylid gwario'r arian hwn. Mewn ymateb i ymchwiliad ar wahân gan y Pwyllgor i newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru, dywedodd Llywodraeth Cymru:

"Mae swyddogion Llywodraeth Cymru eisoes wedi comisiynu gwaith ymchwil ychwanegol i sefydlu lle byddai'r cyllid ar gyfer newyddiaduraeth hyperleol yn cael yr effaith fwyaf ac yn darparu'r gwerth ychwanegol mwyaf. Bydd yr ymchwil yn canolbwyntio ar faint a nodweddion presennol y sector newyddiaduraeth hyperleol; meysydd o fethiant yn y farchnad a rhwystrau rhag sefydlu busnesau

newyddiaduriaeth hyperleol; cefnogi'r hyn sydd ar gael yn awr ... a'r achos dros ddarparu cyllid i fusnesau newyddiaduriaeth hyperleol presennol yn ogystal â busnesau newydd."

Hoffai'r Pwyllgor wybod y diweddaraf am ganlyniad y gwaith ymchwil hwn. Hoffai'r Pwyllgor hefyd gael gwybodaeth ychwanegol am bwy sy'n gyfrifol am y gronfa £100,000, sut caiff ei hyrwyddo, a beth yw canlyniadau disgwylidig y gwariant, a sut y cânt eu gwerthuso.

Cefnogi'r Gymraeg:

25. Trafododd y Pwyllgor y cyllid sy'n cefnogi "Cymraeg 2050: Strategaeth miliwn o siaradwyr Cymraeg a Rhaglen Waith". Mae gan y Strategaeth dair thema allweddol sy'n sail i gynlluniau Llywodraeth Cymru i gyflawni'r nod, sef:

- Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg;
- Thema 1: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg;
- Thema 3: Creu amodau ffafriol – sy'n golygu sicrhau'r seilwaith a'r cyddestun cywir er mwyn galluogi themâu 1 a 2 i ddigwydd.

26. Nododd y Pwyllgor, ar y cyfan, fod cyllid ar gyfer y Gymraeg yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg heb newid, gyda £38.3 miliwn wedi'i ddyrannu yng nghyllideb ddrafft 2019-20. Gofynnodd yr Aelodau a oedd hyn yn ddigonol i sicrhau cynnydd tuag at y targed cyffredinol. Ymatebodd y Gweinidog:

"Wel, rydw i'n meddwl ein bod ni'n falch ein bod ni wedi ein galluogi i sicrhau ei bod hi'n fflat, achos mae yna gyni ac mae lot o ardaloedd eraill wedi gweld cwmp yn yr hyn y maen nhw'n cael fel rhan o'u cyllideb nhw. Felly, rŷm ni wedi sicrhau bod yr arian yn parhau fel mae e wedi bod yn y gorffennol. Rydw i yn meddwl, o ran y weledigaeth i gyrraedd 1 filiwn o siaradwyr, beth sy'n bwysig nawr yw ein bod ni'n rhoi'r seilwaith yn ei lle, a dyna beth rŷm ni wedi bod yn ei baratoi. Mae'r rhaglen ar gyfer 2050 yn ei lle. Rydym ni'n hyderus bod y math o bethau sydd angen inni eu rhoi mewn lle ar gyfer y seilwaith yna yn bosibl gyda'r gyllideb sydd gyda ni."

Mae'r Pwyllgor yn deall y cyfyngiadau presennol ar gyllid, ond mae hefyd yn pryderu nad yw'r gyllideb sefydlog arian parod yn caniatáu cynnydd digonol tuag at darged uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Cyllid i wella addysg cyfrwng Cymraeg

- 27.** Trafododd y Pwyllgor arian ar gyfer cynlluniau i wella sgiliau Cymraeg athrawon ac ymarferwyr, sy'n cynnwys cyllid drwy Cymraeg Gwaith, y cynllun sabothol, a chyllid i astudio ar gyfer Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 28.** Gofynnodd y Pwyllgor p'un a yw'r cyllid hwn yn dangos gwerth am arian o ystyried y niferoedd sy'n cwblhau'r cyrsiau hyfforddi amrywiol a ddarperir ar hyn o bryd. Holodd y Pwyllgor hefyd p'un a yw'r cyllid sy'n cefnogi hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddigonol er mwyn cyflawni targed Llywodraeth Cymru o greu 40 o feithrinfeydd cyfrwng Cymraeg erbyn 2021.
- 29.** Pwysleisiodd y Gweinidog eu bod nhw ar y trywydd iawn i gyflawni'r nifer o feithrinfeydd hynny erbyn 2020.
- 30.** Dywedodd hefyd ei bod hi'n bwysig sicrhau bod digon o athrawon â'r cymwysterau cywir i sicrhau nad yw ansawdd darpariaeth yn gwanhau mewn ymdrech i gyflawni'r targedau i gynyddu nifer y darpariaethau ysgolion meithrin Cymraeg. Dywedodd:
- “what we don't want is to open Welsh nursery schools that have the title 'Welsh nursery school', but, actually, there's not much Welsh going on in the classroom. So, we have to make sure that, whilst that's happening, we're also training the teachers, and there's significant investment going into that as well.”
- 31.** Mae'r cynllun sabothol yn rhan o'r ymgyrch i gynyddu nifer yr athrawon sy'n siarad Cymraeg. Dywedodd y Gweinidog fod blwyddyn gyntaf y cynllun sabothol diwygiedig wedi'i chwblhau a bod y Llywodraeth yn asesu p'un a ellir ei ddatblygu. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod 66 o bobl wedi mynd ar y cwrs “Cymraeg mewn blwyddyn” a'i bod wedi gofyn am y ffigurau ar gyfer y rhai sy'n mynychu'r cyrsiau byr. Dywedodd bod adborth cyfranogwyr yn dweud nad oeddent yn gallu atgyfnerthu eu dysgu ar ôl dychwelyd i'w hysgolion cyfrwng Saesneg.
- 32.** Yng nghyllideb 2018-19, dyrannwyd £600,000 i'r Mudiad Meithrin i helpu i hyfforddi a datblygu staff, gan gynnwys y cyfle i gael diploma NVQ Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant drwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnodd y Pwyllgor p'un a oedd y 122 person y disgwylir iddynt gwblhau'r cwrs y flwyddyn academaidd hon yn dangos gwerth am arian. Wrth ymateb i'r ffigurau hyn, dywedodd y Gweinidog ei bod hi'n hyderus eu bod nhw yn union lle y dylent fod.

Dywedodd hefyd mai'r prif beth yw bod rhaid iddynt barhau i gynyddu'r capasiti a nifer y bobl a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddarparu rhagor o fanylion am ganlyniadau disgwylledig y Cynllun Sabothol i'r Pwyllgor gan gynnwys nifer y cyfranogwyr ar y cyrsiau byr, y cwrs "Cymraeg mewn Blwyddyn" a gwerthuso gallu ieithyddol y cyfranogwyr ar ôl iddynt ddychwelyd i'w hysgolion.

Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu darpariaeth addysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn ddigon uchelgeisiol i gyflawni'r strategaeth gyffredinol o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro darpariaeth meithrinfeydd cyfrwng Cymraeg yn erbyn y targedau interim a nodwyd gan y Gweinidog i ddarparu cyfanswm o 150 o leoliadau erbyn 2050.

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

33. Dywedodd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi ymestyn cylch gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i'r sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith. Yn sgil hynny, roedd y gyllideb yn cynnwys dyraniad o £150,000 i "ehangu gweithgaredd mewn meysydd lle y byddai budd uniongyrchol i ddatblygu darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg" yn 2018-19. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y bydd dyraniad 2019-20 yn dibynnu ar y blaenoriaethau a nodir yn y cynllun gweithredu ôl-16 newydd sydd wrthi'n cael ei ddatblygu.

34. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y bydd cynllun gweithredu yn cael ei gyflwyno yn yr ychydig wythnosau nesaf.

Holodd y Pwyllgor a fyddai'r cyllid ychwanegol hwn yn ddigonol i gyflawni blaenoriaethau'r cynllun gweithredu gan nad yw'r cynllun gweithredu wedi'i gyhoeddi eto. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am ragor o fanylion am y blaenoriaethau yn y cynllun gweithredu, a'r cyllid sy'n eu cefnogi, pan fydd y wybodaeth hon ar gael.

Arian ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg

35. Canfu'r Pwyllgor fod y cyflwyniad y dyraniad cyllideb ar gyfer gwaith Comisiynydd y Gymraeg yn anfoddhaol. Er enghraifft, nid oedd yn glir ar yr olwg gyntaf p'un a oedd arian ychwanegol wedi'i ddyrannu ar gyfer y cyfnod pontio rhwng y Comisiynydd newydd yn cael ei benodi a'r Comisiynydd presennol yn gadael.

36. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y gyllideb ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg yn sefydlog. Y rheswm dros hynny yw nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno safonau iaith newydd ac y dylai gweithgarwch yn swyddfa'r Comisiynydd yn y dyfodol bwysleisio mwy ar hyrwyddo yn hytrach na rheoleiddio.

37. Trafododd y Pwyllgor y gostyngiad sylweddol yng nghronfeydd wrth gefn y Comisiynydd, o tua £600,000 i £69,000. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn gyfforddus â'r gostyngiad hwn ac mai'r rhesymeg oedd bod y cronfeydd wrth gefn wedi bod yn cronni er mwyn ariannu costau tribiwnlys posibl. Dywedodd y Gweinidog:

“if there are any tribunal cases, for example, where cases come forward and they don't have the capacity within that cushion that they've allowed themselves, then I think, as a Government, we would have to look at that if and when that case arises. So, I think we do need to allow some flexibility there, should that kind of situation arise.”

Hoffai'r Pwyllgor gael ymrwymiad mwy cadarn gan Lywodraeth Cymru mai eu bwriad yw tanysgrifennu unrhyw gostau o weithgareddau tribiwnlys gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg na ellir talu amdanynt o gronfeydd wrth gefn.

Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ddeall y broses lle cytunwyd ar gynigion y gyllideb rhwng Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a Chomisiynydd y Gymraeg. Bydd y Pwyllgor yn gofyn i Lywodraeth Cymru amlinellu'r cyfathrebu rhwng y Gweinidog, swyddogion a Chomisiynydd y Gymraeg. Yn benodol, hoffai'r Pwyllgor ddeall am amseru a natur newidiadau'r Comisiynydd i'w chyllideb.

Deddfwriaeth ynghylch y Gymraeg

38. Gofynnodd y Pwyllgor ynglŷn ag amseru deddfwriaeth arfaethedig ar y Gymraeg. Dywedodd Aelodau fod y system bresennol ar gyfer safonau'r Gymraeg wedi'i "pharlysu" wrth aros am y ddeddfwriaeth newydd. Nododd Aelodau bryderon nad yw'r sector preifat o bosibl yn buddsoddi mewn gwell ddarpariaeth Cymraeg gan eu bod nhw'n aros am y dyletswyddau Cymraeg newydd. Er enghraifft, nododd un Aelod ddyfyniad gan SSE Swalec, a ddywedodd:

“Nid ydym yn bwriadu buddsoddi yn sylweddol mewn nwyddau dwyieithog newydd nes ein bod yn gwybod beth fydd ein rhwymedigaethau iaith Gymraeg yn dilyn cyhoeddiad y Bil newydd.”

39. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog:

“os na fydd Bil newydd, bydd dim hawl gyda ni i ofyn i'r cwmnïau preifat yma i wneud dim byd beth bynnag. Felly, mae'n bwysig ein bod ni'n canolbwyntio ar ddatblygu Bil newydd, rwy'n meddwl, i sicrhau ein bod ni'n gallu rhoi arweiniad i gwmnïau felly. Rwy'n meddwl hefyd ei fod yn bwysig ein bod ni'n symleiddio'r broses. Nid wyf yn meddwl ei fod yn gwneud synnwyr inni gyflwyno mwy o safonau ar hyn o bryd tra ein bod ni yn y broses o geisio symleiddio sut rydym ni'n mynd i wneud safonau yn y dyfodol. Felly, nid wyf yn meddwl bod lot o synnwyr i ni gario ymlaen gyda chreu safonau os ydym ni'n mynd i newid pethau yn y dyfodol.”

40. Gofynnwyd i'r Gweinidog roi sicrwydd y bydd y Bil yn cael ei gyflwyno ym mlwyddyn olaf y Cynulliad, ac atebodd:

“Well, that's the plan. We're working through it at the moment. That's the intention. I actually think everything's up in the air because of Brexit. We have no idea what's going to happen, what the fall out of that will be and how that will impact on the core legislative programme. But, the intention at the moment is that we are working hard on the Bill.”

Hoffai'r Pwyllgor gael ymrwymiad llawer mwy cadarn gan Lywodraeth Cymru o ran pryd y bydd Bil y Gymraeg yn cael ei gyflwyno.

Mae hefyd yn bwysig nad yw sefydliadau masnachol, fel cwmnïau cyfleustod cyhoeddus, yn defnyddio diffyg safonau iaith fel esgus i leihau neu arafu eu darpariaeth Gymraeg.

Mae angen i Lywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod y sector preifat yn parhau i fuddsoddi mewn darpariaeth Gymraeg. Yn y cyd-destun hwn, dylid ystyried rhoi mwy o wybodaeth am ddarpariaethau tebygol y ddeddfwriaeth newydd er mwyn rhoi amser i sefydliadau'r sector preifat baratoi.

Cyllid cyfalaf

41. Croesawodd y Pwyllgor y swm untro o £2.75 miliwn ar gyfer ehangu, adfer a diweddarau cyfleusterau yng Nglan Llyn a Llangrannog. Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o fanylion am natur y canlyniadau disgwylidig yn sgil y cyllid hwn.

Bydd y Pwyllgor am edrych eto ar y buddsoddiad hwn i geisio sefydlu canlyniadau'r gwariant yn ystod y rownd cyllideb nesaf.